Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 467 (Cy. 112)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/491 (Cy. 60)) ("Rheoliadau 2006").

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 4 o Reoliadau 2006 (cyfrifo ffioedd) drwy gynyddu'r ffi gymwysadwy sydd i'w thalu am gwrs o driniaeth Band 1, Band 2 a Band 3.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 467 (Cy. 112)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Mawrth 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *6 Mawrth 2019* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 125 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2019 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2019.

**Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006**

**2.** Yn rheoliad 4 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006(**2**) (cyfrifo ffioedd)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "£14.00" rhodder "£14.30";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "£45.00" rhodder "£46.00";

(**1**) 2006 p. 42.

(**2**) O.S. 2006/491 (Cy. 60), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/339 (Cy. 83) ac O.S. 2018/297 (Cy. 55); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) ym mharagraff (3), yn lle “£195.00” rhodder “£199.10”;

(d) ym mharagraff (4), yn lle “£195.00” rhodder “£199.10”; ac

(e) ym mharagraff (5), yn lle “£14.00” rhodder “£14.30”.

**Dirymiadau**

**3.** Mae’r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2017(**1**);

(b) Mae Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2018(**2**).

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
5 Mawrth 2019

(**1**) O.S. 2017/339 (Cy. 83).
(**2**) O.S. 2018/297 (Cy. 55).